# <u>Cyngor Cymuned Llanycil.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 11eg 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Euros Puw (cadeirydd), Gwynfryn Williams, Gwynedd Jones, Jean Roberts, a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Jones, Huw Charles a'r Cyng. Elwyn Edwards

<u>i) Cadarnhau'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd.</u>
Croesawyd Euros Puw i'r gadair a diolchwyd i Geraint Jones am ei waith caled dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Enebwyd Huw Charles i fod yn is-gadeirydd, gofynnwyd i'r clerc gadarnhau gydag ef.

<u>ii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.</u>
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.
Partneriaeth Penllyn: Geraint Davies a Rhys Richards.

<u>iii) Cyfrifon 2020-21.</u>
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2020-21 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

<u>iv) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.</u>
Adroddodd y clerc bod y Ffurflen Archwiliad Blynyddol wedi cyrraedd ac roedd trefniadau mewn lle i Gyngor Gwynedd archwilio'r cyfrifon.

<u>iv) Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2021/22.</u>
Cadarnhaodd y clerc eu bod eisoes wedi derbyn llythyrau gan y cynghorwyr yn hysbysu'r Cyngor o'i dymuniad i beidio derbyn y taliadau statudol a oedd ar gael iddynt.

<u>vi) Adolygu Asedau</u>
Adolygwyd y rhestr asedau a adroddodd y clerc fod y llochesi bws wedi cael eu harchwilio cyn y cyfarfod gan y cynghorwyr.

<u>vii) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.</u>
Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.

Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….